# R H A G L E N

## 1. COFNODION

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2011. **(PAPUR 'A')**

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETH TALEDIG

**Bydd y Cadeirydd yn rhoi anerchiad i'r Aelodau ar y Fforwm Gofalwyr Maeth ar gais y Cynghorydd John Penri Williams.**

## 4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD CYNALIADWYEDD

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012.
**(PAPUR 'B').**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwyno deiseb gan y Prif Weithredwr ar ran Llais y Cristion (Môn) yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

## 6. CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG

(i) Cyflwyno penderfyniad canlynol y Bwrdd Comisiynwyr a wnaed yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2012:-

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r Cyfamod Cymunedol rhwng y Cyngor Sir, y Gymuned Lluoedd Arfog a Medrwn Môn a'i argymell i'r Cyngor Sir.**
- **Cadarnhau y bydd swyddog yn Adran y Prif Weithredwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt sengl ar gyfer gwybodaeth am y Cyfamod Cymunedol.**
- **Cymeradwyo sefydlu Bwrdd Partneriaeth i oruchwylio'r Cyfamod a bod Cadeirydd y Cyngor yn cynrychioli'r Aelodau Etholedig.**

(ii) Ceir cyflwyniad byr gan gynrychiolydd y Llu Awyr Brenhinol.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Bydd Mr. Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol. **(PAPUR 'C').**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2011-12**

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.
**(PAPUR 'CH')**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwyno er gwybodaeth adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
**(PAPUR 'D' – I DDILYN) (Gyda chaniatad y Prif Weithredwr)**

**10. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Derbyn adroddiad gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, Is-Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 6 Mawrth 2012 a 30 Ebrill 2012. **(PAPUR 'DD')**

**11. AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Derbyn adroddiad gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 6 Mawrth a 30 Ebrill 2012 **(PAPUR 'E').**

**12. ADOLYGIAD O DDOGFEN POLISI TRWYDDEDU'R AWDURDOD**

Cyflwyno adroddiad y Prif Swyddog Safonau Masnach.
**(PAPUR 'F').**

**13. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD MÔN A GWYNEDD**

(a) Adrodd bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2012 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r canlynol:-

*"y rhestr o'r materion allweddol yn Atodiad 2 yr adroddiad;*

*y weledigaeth a gyflwynir ym mharagraff 1.12 o'r adroddiad;*

*y rhestr o amcanion strategol yn Atodiad 3 yr adroddiad;*

*Yr opsiwn twf Tai ym mharagraff 1.14 yr adroddiad, h.y. 511 o unedau tai y flwyddyn yn ardal y Cynllun dros oes y Cynllun;*

*Yr opsiwn dosbarthu a gyflwynir ym mharagraff 1.16 yr adroddiad."*

(b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fel a gyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 19 Mawrth 2012.
**(Copi wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i'r holl Aelodau fel rhan o bapurau'r Bwrdd ar gyfer 19 Mawrth 2012).**

## 14. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

*(Noder: Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am y swyddogaeth o gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a byddir yn ceisio cael ei ganiatâd ar gyfer y newidiadau hyn, ond gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r argymhellion y cyfeirir atynt yn 14.1 - 14.13 isod):-*

**14.1 Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith (Adrannau 2.7.3, 2.7.4, 2.7.5, 4.1.1 a 4.1.16)**

**14.2 Y Gyllideb (Para. 4.3.2.2.6 a 4.3.2.27)**

**14.3 Cofnodion y cyfarfodydd (Para 4.1.19.4)**

**14.4 Gwasanaethau Democrataidd (Adrannau 2.12.5, 3.4.12, 3.5.3.23 a 4.1.1.2.12)**

**14.5 Pwyllgorau Sgriwtini (Adrannau a Para. 3.4.2, 2.6.1, 4.5.5.1, 2.6.2.1.4 a 4.1.2 a matrics).**

**14.6 Pwyllgor Archwilio (Para. 3.4.8.3.1, 3.4.8.3.2 a 3.4.8.3.3)**

**14.7 Dyrannu Cadeiryddion/Seddau Pwyllgorau (Adran 5.8.2)**

**14.8 Penodiadau i Gyrff Allanol (Adran 5.8.4)**

**14.9 Grwpiau Gwleidyddol (Adran 5.8.1)**

**14.10 Gweinyddu'r "Gynghrair" (Adran 5.8.5)**

**14.11 Protocol ar weithrediad y Pwyllgor Gwaith (Adran 5.8.6)**

**14.12 Dirprwyo i Staff (Adran 3.5.3)**

**14.13 Y Cyfansoddiad ei hun (Para. 2.15.2.1)**

(a) Adrodd - bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 30 Ebrill 2012 wedi penderfynu derbyn cynnwys yr adroddiadau uchod a gofynnir am ganiatâd y Cyngor i benderfynu i gymeradwyo argymhellion y Bwrdd Comisiynwyr ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau dilyniadol i'r Cyfansoddiad.

(b) Cyflwyno adroddiad y Gweithgor Cyfansoddiad fel a gyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 30 Ebrill 2012.
**(Dosbarthwyd copïau yn flaenorol i Aelodau fel rhan o Bapurau'r Bwrdd ar gyfer 30 Ebrill 2012).**

**15. ADOLYGIAD ETHOLIADOL**

Y Prif Weithredwr i ddarparu diweddariad llafar.

**16. ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD CYNGOR YNYS MÔN**

Cyflwyno adroddiad llafar gan Arweinydd y Cyngor.

**17. PREMIWM DISGYBL**

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr.

**18. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Profion Budd y Cyhoedd eithriad ohoni".*

**19. ADRODDIAD CYNNYDD 4YDD CHWARTER Y COMISIYNWYR**

Bydd y Comisiynwyr Margaret Foster a Gareth Jones yn cyflwyno adroddiad llafar ar Adroddiad Cynnydd 4ydd Chwarter y Comisiynwyr.

**20. PANEL YMCHWILIO**

Cyflwyno er gwybodaeth, gofnodion y Panel Ymchwilio a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2012. **(PAPUR 'FF').**